*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Medi 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **PSTC Helen MacArthur** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn cydymffurfio â'r drosedd statudol newydd o fethu ag atal twyll o dan Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, ac amlinellu'r rheolaethau, yr hyfforddiant a'r dulliau llywodraethiant sydd ar waith i liniaru'r risg o dwyll.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 yn cyflwyno trosedd gorfforaethol newydd o fethu ag atal twyll o 1 Medi 2025.

3 Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu ei fframwaith llywodraethiant ac wedi cyflwyno gweithdrefnau cymesur i atal twyll, gan gynnwys rheolaethau ariannol wedi'u diweddaru, tryloywder caffael, gwelliannau i'r gofrestr risg, a hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll wedi'i dargedu. Mae'r mesurau hyn yn rhoi sicrwydd bod y Gwasanaeth yn bodloni ei rwymedigaethau o dan y Ddeddf.

**ARGYMHELLIAD**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi cydymffurfiaeth y Gwasanaeth â dyletswydd atal twyll Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023; ac yn**

**ii) Nodi'r set bresennol o reolaethau a hyfforddiant gwrth-dwyll.**

**CEFNDIR**

5 Mae Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 yn cyflwyno trosedd newydd lle gall sefydliadau mawr gael eu dal yn droseddol atebol os ydynt yn methu ag atal twyll a gyflawnir gan weithwyr neu bobl gysylltiedig er budd y sefydliad.

6 Mae sefydliadau sydd â dros 250 o weithwyr a throsiant dros £36 miliwn neu £18 miliwn mewn asedau yn dod o fewn cwmpas y Ddeddf. Mae'r Gwasanaeth yn bodloni'r trothwyon hyn ac felly mae'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth newydd.

**GWYBODAETH**

7 Mae parodrwydd y Gwasanaeth i dderbyn risg mewn perthynas â risgiau cyfreithiol ac ariannol yn finimol a gofalus. Adlewyrchir hyn yn ei ymrwymiad i adolygu a mireinio prosesau mewnol yn rheolaidd, ac i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

8 Mae cofrestr risg y Gwasanaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu’r mesurau lliniaru ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll. Y sgôr risg gros oedd 16 (uchel), ond ar ôl cyflwyno rheolaethau sydd wedi'u hymgorffori mewn systemau, llifau gwaith, a pholisïau, mae'r sgôr risg presennol wedi gostwng i 9 (canolig-uchel).

9 Mae’r gwelliannau’n cael eu sbarduno gan ganfyddiadau adolygiadau cymheiriaid, argymhellion archwilio mewnol, a chraffu gan archwilio allanol. Mae'r mecanweithiau hyn yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg ac arferion gorau’r sector, ac yn cynnal rheolaethau ariannol cymesur a chadarn ar yr un pryd.

10 Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cyfres o weithdrefnau cymesur i fodloni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf, a’r drosedd o fethu ag atal twyll yn benodol. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u cynllunio i atal, canfod, ac ymateb i weithgarwch twyllodrus a gyflawnir gan weithwyr neu bobl gysylltiedig er budd y sefydliad.

11 Mae’r Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru yn ymgorffori trefniadau llywodraethiant clir, gan gynnwys terfynau awdurdod dirprwyedig, llwybrau archwilio, a goruchwyliaeth ariannol uwch.

12 Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu gyda deiliaid cyllidebau penodedig ar gyfer yr holl brosiectau cyfalaf a gwariant refeniw. Mae’r llywodraethiant yn cael ei gyflawni trwy'r Pwyllgor Cyllid a Chaffael. Mae'r tîm cyllid yn datblygu dangosfwrdd ariannol i wella tryloywder a chefnogi deiliaid cyllidebau i fonitro eu hadnoddau.

13 Mae’r rheolaethau caffael wedi'u cryfhau drwy gyfrwng Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2025–30, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod ym mis Mehefin 2025. Cymeradwywyd y Rheolau Gweithdrefn Contractau ar 17 Mawrth 2025. Mae'r rhain yn egluro'r defnydd o fframweithiau'r sector cyhoeddus lle bo hynny'n berthnasol, gan sicrhau prisio cystadleuol a chydymffurfiaeth â'r gyfraith gaffael. Pan fo angen gwneud dyfarniadau uniongyrchol, mae'r rhain yn cael eu cefnogi gan gyfiawnhad a goruchwyliaeth sydd wedi’u dogfennu. Mae’r protocolau rheoli contractau wedi'u diweddaru i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd trwy gydol y cylch bywyd caffael.

14 Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll wedi cael ei ddarparu a bydd yn parhau i gael ei ddarparu mewn partneriaeth â darparwyr bancio'r Gwasanaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar fygythiadau cyffredin fel gwe-rwydo, dynwared, a dargyfeirio taliadau.

15 Yn ogystal, mae modiwl e-ddysgu CIPFA ar ymwybyddiaeth o dwyll wedi'i gyflwyno i staff cyllid a chaffael. Mae'n rhoi trosolwg o dwyll: beth ydyw, sut y gellir ei adnabod, a sut y gellir ei osgoi. Mae'r rhaglenni hyfforddi hyn wedi'u hymgorffori mewn arfarniadau staff ac maent yn cefnogi diwylliant o wyliadwriaeth ac atebolrwydd.

16 Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cryfhau rheolaethau ac ymgorffori mesurau atal twyll, mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i welliant parhaus. Mae ein statws ‘gofalus’ o ran ein parodrwydd i dderbyn risgiau ariannol yn sicrhau bod prosesau’n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn rhan o waith blaengynllunio, bydd y trefniadau Parhad Busnes ar gyfer 2026 yn cynnwys ymarfer pwrpasol sy'n canolbwyntio ar ymateb i weithgarwch twyllodrus.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae’n cefnogi llywodraethiant moesegol ac ymddiriedaeth y cyhoedd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |
| Cyllideb | Mae costau hyfforddi a chydymffurfio yn cael eu hamsugno o fewn dyraniadau presennol. Ni nodwyd unrhyw bwysau cyllidebol ychwanegol. |
| Cyfreithiol | Mae'r Gwasanaeth o fewn cwmpas y drosedd o dan Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 ac mae wedi cyflwyno gweithdrefnau cymesur i liniaru atebolrwydd. |
| Staffio | Mae hyfforddiant wedi'i integreiddio yng nghynlluniau datblygu staff. Mae diffiniadau rôl clir a strwythurau llywodraethiant yn cefnogi atal twyll. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae’r deunyddiau hyfforddi a’r dogfennau llywodraethiant yn ddwyieithog ac yn gynhwysol. |
| Risgiau | Mae'r holl risgiau uchel ac uchel iawn yn cael eu rheoli'n weithredol trwy'r gofrestr risg strategol. Nid oes unrhyw risgiau newydd sy'n gysylltiedig â thwyll wedi dod i'r amlwg ers y cyfnod adrodd diwethaf. |